**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau Cynulliad

03 Rhagfyr 2014

Annwyl Aelod Cynulliad,

Yn ystod fy Natganiad Llafar ar Argymhellion Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, cafwyd ymholiad am yr amrywiol fathau o gymorth busnes arbenigol sydd ar gael.

Mae Canolfan Gydweithredol Cymru yn cynnig cymorth busnes arbenigol i gwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol cydfuddiannol, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol. Gall hefyd helpu gydag amrywiol strwythurau busnes mentrau cymdeithasol posibl, gan gynnwys unig fasnachwyr, partneriaethau a sefydliadau elusennol sydd am fasnachu o dan eu diben gwreiddiol, neu sefydlu cangen fasnachu. Mae'r cymorth yn amrywio o gyngor ar strwythurau cyfreithiol a chynllunio ariannol i fynediad at hyfforddiant, megis hyfforddiant penodol i aelodau Bwrdd.

Bydd tîm Olyniaeth Busnes a Chonsortia y Ganolfan hefyd yn cynnig cymorth i fusnesau lunio partneriaethau consortia, gan gynnwys cyngor ar strywthuro consortiwm, megis modelau busnes addas, strwythurau sefydliadol a chyfreithiol, cynllunio busnes a chynllunio ariannol. Gallant hefyd roi cyngor ar gofrestru cwmnïau, materion cyflogi ac Adnoddau Dynol, llywodraethu a hyfforddi.

Mae cymorth mentora i gydweithwyr hefyd ar gael. Cynhelir hwn fel gwasanaeth pwrpasol ble yr ydym yn dod o hyd i fentoriaid sy'n cyd-fynd ag anghenion cleient. Mae'r mentoriaid i'w cael o amrywiol gefndiroedd ym maes mentrau cymdeithasol, ac o fodelau busnes eraill megis unig fasnachwyr a phartneriaethau, fel y bo angen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*

Hefyd, mae ein gwasanaeth Busnes Cymru yn cynnig un pwynt cyswllt am wybodaeth, cyngor a chymorth ar yr ystod o gymorth cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael i bob busnes gan gynnwys metnrau cymdeithasol.

Edwina Hart